



## Cynnig Gofal Plant Cymru Gweithdrefn Cyflwyno Apêl

Menter gan Lywodraeth Cymru yw Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed. Mae'n cynnig cyfuniad o hyd at 30 awr yr wythnos o addysg mewn Meithrinfa'r Cyfnod Sylfaen a gofal plant wedi'i ariannu ychwanegol am hyd at 48 wythnos y flwyddyn (39 wythnos yn ystod y tymor a hyd at 9 wythnos o ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol).

Mae angen i rieni fodloni meini prawf preswyllo a gweithio er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dydy rhai ceisiadau sy'n dod i law ddim yn bodloni'r meini prawf hyn ac felly mae rhaid i ni eu gwrthod.

Os ydych chi'n byw yn ardaloedd Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr neu Ferthyr Tudful, ac yn teimlo bod eich cais wedi'i wrthod yn anghywir, dilynwch y broses isod os hoffech i'r penderfyniad gael ei ailystyried.

### Os ydych chi'n anghytuno â deiliant eich cais

Os nad ydych chi'n fodlon â'n penderfyniad ynghylch eich cais am Gynnig Gofal Plant Cymru, mae modd i chi ofyn i'ch cais gael ei adolygu. Mae modd i chi ofyn am yr adolygiad yma er mwyn:

- Gofyn i'ch cais am y Cynnig Gofal Plant gael ei ystyried eto
- Dweud wrthym ni pam rydych chi o'r farn bod y penderfyniad rydyn ni wedi'i wneud yn anghywir
- Rhoi unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r rheswm dros eich her

**Nodwch:** Dim ond prif ymgeisydd y cais gwreiddiol all gyflwyno ceisiadau am adolygiadau a / neu apeliadau ffurfiol.

Dylech wneud y cais yn ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost), cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y llythyr/e-bost gwreiddiol sy'n nodi'r penderfyniad. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan uwch aelod o staff yng Ngwasanaethau Addysg a Chynhwysiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais.

### **Os yw'ch adolygiad yn llwyddiannus**

Os bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei wrthdroi, bydd y garfan Cynnig Gofal Plant yn diwygio'ch cais ac yn anfon cadarnhad o'ch cymhwysedd atoch chi. **Sylwch**, bydd y cyllid yn cychwyn o'r dyddiad y byddwn ni'n cadarnhau eich cymhwysedd ar ddiwedd y cyfnod adolygu.

### **Os nad yw'ch adolygiad yn llwyddiannus**

Os bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau, byddwn ni'n esbonio'r rhesymau am hyn i chi a fydd deiliant eich cais gwreiddiol ddim yn newid.

### **Os ydych chi'n anghytuno â deilliant yr adolygiad**

Os ydych chi'n dal i gredu bod ein penderfyniad yn anghywir, mae modd i chi wneud cais am apêl ffurfiol. Mae modd i chi wneud cais am yr apêl ffurfiol yma er mwyn:

- Dweud wrthym ni pam rydych chi o'r farn bod penderfyniad yr adolygiad yn anghywir
- Rhoi unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r rheswm dros eich her

**Nodwch:** Dim ond prif ymgeisydd y cais gwreiddiol all gyflwyno ceisiadau am adolygiadau a / neu apeliadau ffurfiol.

Rhaid i chi wneud y cais am apêl ffurfiol yn ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost), cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad penderfyniad yr adolygiad. Bydd yr apêl ffurfiol yn cael ei chynnal gan banel o swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cynrychiolwyr o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a/neu Ben-y-bont ar Ogwr a 'Cwlwm' (y grŵp cyffredinol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau ymbarél gofal plant yng Nghymru). Bydd yr apêl ffurfiol yn cael ei chynnal cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais.

### **Os yw'ch apêl ffurfiol yn llwyddiannus**

Os bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei wrthdroi yn rhan o'r apêl ffurfiol yma, bydd y garfan Cynnig Gofal Plant yn diwygio'ch cais ac yn anfon cadarnhad o'ch cymhwysedd atoch chi. **Sylwch**, bydd y cyllid yn cychwyn o'r dyddiad y byddwn ni'n cadarnhau eich cymhwysedd ar ddiwedd cyfnod yr apêl ffurfiol.

### **Os nad yw'ch apêl ffurfiol yn llwyddiannus**

Os bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau, byddwn ni'n esbonio'r rhesymau am hyn i chi a fydd deilliant eich cais gwreiddiol ddim yn newid. Fydd dim modd cyflwyno unrhyw apeliadau pellach.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid yn y dyfodol, a'ch bod chi'n credu eich bod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru, dylech gyflwyno cais cwbl newydd trwy'r broses ymgeisio ar-lein.

*Mae crynodeb o'r broses isod:*

<b>Cam</b>	<b>Amserlenni</b>
Cais i adolygu'r cais gwreiddiol.	Cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y llythyr/e-bost gwreiddiol sy'n nodi'r penderfyniad. Rhaid i chi wneud y cais yma'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost).
Adolygiad gan uwch aelod o Wasanaethau Addysg a Chynhwysiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.	Cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais ysgrifenedig.
Os bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau, mae modd i chi wneud cais am apêl ffurfiol.	Cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr adolygiad. Rhaid i chi wneud y cais yma'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost).
Panel apeliadau gyda chynrychiolwyr o adrannau eraill y Cyngor, Cyngor	Cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais ysgrifenedig.

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful/Pen-y-bont ar Ogwr a 'Cwlwm'.	
--	--

Dylech anfon eich llythyron:

Drwy e-bost: [CynnigGofalPlantCymruRhCT@rctcbc.gov.uk](mailto:CynnigGofalPlantCymruRhCT@rctcbc.gov.uk)

Drwy'r post: Carfan Cynnig Gofal Plant, Tŷ Trevithick, Abercynon, RhCT, CF45 4UQ

Ffôn: 01443 570048